

## **Cwestiynau Cyffredin**

### **Pam ydych chi wedi symud?**

Rydym wedi symud i'n cyfleuster newydd yng Nghanolfan Iechyd Genomig Cymru (CIGC) / Wales Genomics Health Centre oherwydd nad yw'r cyfleusterau presennol bellach yn addas i'r diben. Wrth i'r galw am y gwasanaethau genomeg barhau i gynyddu, rydym am fod mewn sefyllfa lle gallwn barhau i ddarparu gofal o'r ansawdd uchaf, mewn cyfleusterau addas, ar gyfer nifer cynyddol ein cleifion sydd angen ein gwasanaethau.

### **Sut mae hyn o fudd i gleifion?**

Mae'r cyfleuster newydd wedi'i ddylunio'n benodol gyda'n cleifion mewn golwg, ac mae ganddo'r technolegau a'r adnoddau diweddaraf, gyda'r nod o wella gofal cleifion nawr ac yn y dyfodol. Mae'r clinig newydd yn CIGC yn darparu lleoliad lle gall cleifion fod yn hyderus y gallwn barhau i ddiwallu eu hanghenion mewn man pwrpasol, gan sicrhau gwell parhad gofal a rhoi mwy o dawelwch meddwl.

### **A fydd dau leoliad yng Nghaerdydd bob amser?**

Bydd gwasanaeth clinigol AWMGS wedi'i leoli yn y CIGC ac mae'r cyfleusterau i gleifion yma wedi'u dylunio gyda chymorth gan gleifion a theuluoedd AWMGS i ddarparu'r profiad a'r canlyniad gorau posibl i gleifion. Felly, bydd y cyfleusterau gwasanaeth geneteg pwrpasol presennol ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru yn cael eu cau yn y pen draw gan nad ydynt yn bodloni gofynion ein gwasanaethau mwyach.

Er ein bod yn gobeithio y bydd manteision y safle CIGC i gleifion yn atyniadol iawn, rydym hefyd yn deall y gallai mynediad i'r safle newydd fod yn heriol i unigolion. Felly, byddwn yn parhau i gynnig dewis i gleifion a theuluoedd y byddai'n well ganddynt gael mynediad at wasanaethau yn agos at safle Ysbyty Athrofaol Cymru, ac rydym yn hapus i drafod yr hyn y gallwn ei wneud i gefnogi, drwy fynd i'r afael ag anghenion unigolion, fesul achos.

Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau plant yn Ysbyty Athrofaol Cymru gan y gallwn gynnig cyfleusterau clinig pediatrig arbenigol yn y lleoliad hwn.

## **Mynediad i'r Safle/Cyfleusterau**

### **Ble mae'r safle newydd?**

Mae'r safle ym Mharc Busnes Cardiff Edge, Longwood Drive, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7YU – mae hyn yn agos at gylchfan Coryton sydd ar yr A470 a chyffordd 32 traffordd yr M4.

### **A oes cyfleusterau parcio? A fydd yn rhaid i mi dalu?**

Oes, mae digon o leoedd parcio pwrpasol ar gyfer cleifion, ymwelwyr a staff yn CIGC, gan gynnwys mannau parcio hygyrch. Nid oes rhaid i chi dalu am barcio.

### **A oes cyfleusterau parcio hygyrch?**

Oes, mae nifer o leoedd parcio hygyrch ar gael, gyda baeau wedi'u marcio'n glir a ramp mynediad i'r adeilad.

### **Beth yw'r opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus?**

#### **Bws**

Mae gwasanaeth bws 132 Caerdydd – Maerdy yn rhedeg yn rheolaidd o ganol dinas Caerdydd i'r Village Hotel.

Y safle bws agosaf gyda gwasanaethau rheolaidd yw'r Village Hotel, 20 munud ar droed o CIGC. Fel arall, gallwch ddal y bws o Ysgol Gynradd Tongwynlais a chael mynediad i'r safle trwy Lwybr Taith Taf.

#### **Trên**

Y gorsafoedd trên agosaf yw Radur a Coryton.

Mae Gorsaf Radur yn cael ei gwasanaethu gan wasanaethau [bob](#) hanner awr tua'r de o'r Rhondda a Merthyr Vale, ac i'r gogledd o'r Barri a Chaerdydd. Mae'r orsaf tua 15 munud ar droed o CIGC.

Mae Gorsaf Coryton yn cael ei gwasanaethu gan wasanaethau bob hanner awr o Orsaf Ganolog Caerdydd a Gorsaf Heol y Frenhines Caerdydd. Mae'r orsaf tua 20 munud ar droed o CIGC.


### **Sut ydw i'n dod o hyd i'r clinig?**

Mae'r clinig yn daith gerdded fer o'r maes parcio ac mae llwybr hygyrch o'r maes parcio i'r safle.

Ar y map isod, mae'r ardal a amlinellir mewn melyn yn dangos ein ardal barcio. Mae'r llinell ddu doredig yn dangos y llwybr i'r ffordd fynediad i'n maes parcio, ac oddi yno, trwy'r brif giât ddiogelwch. Mae'r llinell doredig goch yn dangos y llwybr cerdded o'n maes parcio i'r adeilad.

Bydd map hefyd yn cael ei gynnwys yn eich llythyr apwyntiad, os cewch eich gwahodd i fynychu'r CIGC.

- Vehicle access in / out
- Pedestrian route from car park
- Car Park
- Site security hut



**Oes gan y safle fynediad i'r anabl?**

Oes, mae mynediad i'r anabl i'r safle. Mae llwybr hygyrch o'r maes parcio i'r safle ac mae pob un o'n clinigau cleifion ar lawr gwaelod yr adeilad.

**Oes toiledau ar y safle?**

Oes, mae toiledau ar y safle, gan gynnwys toiledau hygyrch a chyfleusterau newid babanod yn y dderbynfa.

**A oes cyfleusterau arlwyyo ar y safle?**

Nid oes cyfleusterau arlwyyo ar gael ar hyn o bryd. Mae'r cyfleusterau arlwyyo agosaf tua 15 munud i ffwrdd ar droed neu daith 4 munud yn y car. Y rhain yw ASDA, Starbucks a McDonalds. Bydd dŵr yfed yn cael ei ddarparu yn yr ystafell glinig.

**Y Gymraeg- A fydd gwybodaeth/arwyddion ar gael yn Gymraeg?**

Bydd gwybodaeth ac arwyddion ar gael yn Gymraeg.

**Gwybodaeth am Apwyntiadau**

**Pwy sy'n penderfynu pa fath o apwyntiad sydd gen i?**

Byddwch chi a'ch meddyg genetig yn trafod pa fformat apwyntiad sydd fwyaf addas yn seiliedig ar eich amgylchiadau a'ch gofynion. Fodd bynnag, os oes angen i'ch meddyg eich gweld wyneb yn wyneb, er enghraifft, i gynnal archwiliad, gofynnir i chi fynychu eich apwyntiad yn y CIGC, a bydd apwyntiadau'r BIP yn dal i fod ar gael ar gais drwy eithriad.

### **Beth ddylwn i ei wneud os nad wyf am i'm hapwyntiad gael ei gynnal yn CIGC?**

Os ydych wedi cael gwahoddiad i fynychu apwyntiad yn CIGC ac yn teimlo na allwch fod yn bresennol, cysylltwch â thîm apwyntiadau AWMGS a byddant yn cadarnhau a oes unrhyw ddewisiadau amgen addas ar gael.

### **Sut alla i gael apwyntiad yn CIGC? Sut byddaf yn cael fy atyfeirio ar gyfer fy apwyntiad?**

Os ydych chi'n gymwys i gael apwyntiad geneteg AWMGS ac yr hoffech i hyn gael ei gynnal yn y CIGC, gallwch ddweud hyn wrth eich meddyg sy'n atyfeirio a gallant roi gwybod i chi a yw hyn yn bosibl. Fel arall, gallwch wneud y cais hwn drwy dîm apwyntiadau AWMGS os ydych eisoes wedi derbyn gwahoddiad am apwyntiad yn rhywle arall, a byddant yn cadarnhau a yw hyn yn bosibl.

### **Pa glinigau/apwyntiadau sy'n digwydd yn y lleoliad newydd?**

Bydd y clinigau wyneb yn wyneb canlynol yn cael eu cynnal yn y CIGC:

- Clinigau geneteg cyffredinol
- Clinigau geneteg canser
- Clinigau geneteg cynenedigol
- Clinigau niwrogeneteg

### **A allaf gysylltu â'r lleoliad yn uniongyrchol ynghylch fy apwyntiad?**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich apwyntiad, ffoniwch y rhif ar eich llythyr apwyntiad yna byddant yn gallu eich cynghori ynghylch eich apwyntiad gydag AWMGS p'un ai yn Ysbyty Athrofaol Cymru neu CIGC.

### **Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer fy apwyntiad?**

Pan fyddwch yn cyrraedd y dderbynfa, rhowch wybod i'r derbynnydd eich bod wedi cyrraedd ar gyfer eich apwyntiad a byddant yn eich cofrestru.

### **Beth ddylwn i ei wneud os oes angen i mi wneud newidiadau i'm hapwyntiad?**

Os oes angen i chi wneud newidiadau i'ch apwyntiad, ffoniwch y rhif ar eich llythyr apwyntiad a bydd aelod o'r tîm yn eich helpu.

### **A oes angen i mi gael fy apwyntiad wyneb yn wyneb? A allaf ei wneud yn rhithwir?**

Mae angen apwyntiad wyneb yn wyneb ar lawer o'r cleifion a atgyfeirir at AWMGS oherwydd efallai y bydd angen i'r meddyg eich archwilio chi neu'ch plentyn. Os yw apwyntiad rhithwir yn opsiwn, bydd hyn yn cael ei gynnig i chi pan fydd eich apwyntiad yn cael ei drefnu. Os ydych wedi cael cynnig apwyntiad wyneb yn wyneb ond byddai'n well gennych un rhithwir, ffoniwch dîm apwyntiadau AWMGS a byddant yn rhoi gwybod i chi os yw hyn yn bosibl.

### **Beth fydd trefn fy apwyntiad yn CIGC?**

Yn yr un modd â'n holl leoliadau apwyntiadau, bydd meddyg geneteg neu gwnselydd genetig yn gofyn cwestiynau perthnasol i chi am eich hanes personol a theuluol. Efallai y bydd angen iddynt eich archwilio a thynnu ffotograffau. Ar y pwynt hwn, efallai y bydd gofyn i chi gael prawf genetig wedyn.

### **A fydd fy ngofal dilynol yn wahanol os oes gennyf apwyntiad yn y cyfleuster newydd?**

Na, bydd unrhyw ofal dilynol a gewch yr un fath â'r un y byddech yn ei dderbyn yn unrhyw un o'n clinigau eraill, neu yn dilyn apwyntiad rhithwir.

### **Sut byddaf yn cael fy nghanlyniadau? Pryd fyddaf yn eu cael?**

Bydd y person sy'n trefnu'r prawf yn trafod sut yr hoffech dderbyn eich canlyniadau. Bydd gennych yr opsiwn bob amser o gael apwyntiad dilynol yn ddiweddarach i drafod y canlyniadau yn fanylach, os dymunwch. Bydd pryd fyddwch yn cael eich canlyniadau yn dibynnu ar y cyflwr a'r math o brawf rydych wedi'i gael. Bydd y person sy'n trefnu'r prawf yn rhoi amserlen i chi o ran pryd y gallwch ddisgwyl eich canlyniadau.

### **Rwy'n poeni am y canlyniadau, beth ddylwn i ei wneud?**

Gallwch drafod hyn gyda'r clinigwr a drefnodd y prawf. Dylid ~~bod wedi rhoi ai fod~~ rhif cyswllt wedi cael ei roi i chi yn y clinig a/neu wedi'i gynnwys yn eich llythyr.